# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 08/12/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Diwydiant Bwyd Cymru

***9. Gareth Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth a roddir i ddiwydiant bwyd Cymru. OAQ(3)1220(RAF)*

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Ein nod yw cael mantais gystadleuol ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru drwy gyfrwng cyfres o raglenni cymorth, o sioeau a digwyddiadau masnach i gymorth busnes, er mwyn sbarduno gwerthiant. Yr wyf i am hyrwyddo'r cynnyrch gorau oll y mae ein gwlad ni yn ei gynnig.

### Lles Anifeiliaid

***10. Christine Chapman:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella lles anifeiliaid. OAQ(3)1238(RAF)*

**Elin Jones:** Yr ydym wedi ymrwymo, drwy ein strategaeth iechyd a lles anifeiliaid, i wella lles anifeiliaid. Mae rheoliadau drafft ar fridio cŵn yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Cafodd gwybodaeth sylfaenol cynllun gwella lles anifeiliaid anwes 2009-10 ei chyhoeddi i gyd-fynd â'r gynhadledd ar les anifeiliaid a gafodd ei chynnal ym mis Tachwedd, i hyrwyddo gwaith ym maes lles anifeiliaid.

### Cefnogi Cymunedoedd Gwledig yn y Gogledd

***11. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau ar gyfer cefnogi cymunedau gwledig yn y Gogledd. OAQ(3)1237(RAF)*

**Elin Jones:** Yr wyf wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau gwledig ledled Cymru, yn unol â'r polisïau a geir yng nghytundeb 'Cymru'n Un'. Cafodd cynllun datblygu gwledig Cymru ei gynllunio'n benodol i helpu cymunedau gwledig.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1232(RAF), yn ôl.*

### Gwarchod Anifeiliaid

***13. Dai Lloyd:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am warchod anifeiliaid. OAQ(3)1224(RAF)*

**Elin Jones:** Gwnaethom amddiffyn yn llwyddiannus, yn yr Uchel Lys, ein deddfwriaeth ar

goleri sioc drydan ar gyfer cŵn a chathod. Yr ydym yn ymgynghori ar ddeddfwriaeth newydd ar fridio cŵn ac yr ydym yn cynghori y dylid cofnodi unrhyw dystiolaeth a geir bod llusernau papur yn beryglus i dda byw. Mae'r cyfan hyn yn cael ei wneud yn unol â'n strategaeth iechyd a lles anifeiliaid.

### Dyraniad yng Nghyllideb Ddrafft 2011-12 i'r Portffolio Materion Gwledig

**14. Nick Ramsay:** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y dyraniad yng Nghyllideb Ddrafft 2011-12 i'r portffolio Materion Gwledig. OAQ(3)1245(RAF)*

**Elin Jones:** Yr ydym wedi cael trafodaethau cyson yn y Cabinet fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb. Yr wyf hefyd wedi cynnal cyfarfodydd dwyochrog â'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb mewn perthynas â dyraniad y portffolio materion gwledig.

### Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

**15. Mark Isherwood:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. OAQ(3)1235(RAF)*

**Elin Jones:** Mae'r polisi amaethyddol cyffredin yn darparu rhyw £390 miliwn yn flynyddol i'r diwydiant ffermio yng Nghymru. Yr wyf wedi ymrwymo i PAC sy'n cynnal incwm a chynhyrchu bwyd cynaliadwy. Rhaid i'r PAC gynyddu gallu ein diwydiannau seiliedig ar y tir i gystadlu, gan ddiogelu a chyfoethogi'r amgylchedd ar yr un pryd. Rhaid i'r PAC hefyd gyfrannu at ddatblygiad economaidd-gymdeithasol ein cymunedau gwledig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Blaenoriaethau

***11. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1481(ESH)*

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Yr ydym wedi ymrwymo o hyd i fodloni'r amcanion yng nghytundeb 'Cymru'n Un', sy'n cynnwys mynd i'r afael â thlodi tanwydd, gwella effeithlonrwydd ynni a chefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o ran ansawdd yr amgylchedd lleol. Yr ydym wedi ymrwymo hefyd i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1510(ESH), yn ôl.*

### Perygl Llifogydd

***13. Lorraine Barrett:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â pherygl llifogydd yng Nghymru. OAQ(3)1512(ESH)*

**Jocelyn Davies:** Eleni, yr ydym yn buddsoddi £23 miliwn i wella amddiffynfeydd llifogydd, a fydd yn cael cymorth atodol o £9 miliwn o Ewrop. Mae mentrau yn gwneud cynnydd i wella rhybuddion rhag llifogydd, ymateb i argyfyngau a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd. Yr ydym wedi ymgynghori ar strategaeth genedlaethol ar gyfer perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan nodi ein hamcanion, blaenoriaethau a chamau gweithredu.

### Safle Celtic Energy ym Mynydd Cynffig

***14. Bethan Jenkins*****:** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i sicrhau*

*bod Celtic Energy yn adfer ei safle ym Mynydd Cynffig yn unol â'i drwydded. OAQ(3)1489(ESH)*

**Jocelyn Davies:** Ni allaf wneud unrhyw sylw am y cynlluniau i adfer safle Mynydd Cynffig gan fod apêl gynllunio Margam yn parhau ac yn dal i aros i gael ei chlywed gan yr Uchel Lys. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae gwaith i adfer safle yn unol ag unrhyw drwydded neu amodau cynllunio ar gyfer y safle yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod cynllunio lleol.

**Cynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth yng Nghymru**

**15. Jenny Randerson:** *Pa werthusiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gynllun trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth yng Nghymru. OAQ(3)1506(ESH)*

**Jocelyn Davies:** Nid oes unrhyw werthusiad ffurfiol wedi'i gynnal ar gyflwyno trwyddedu tai amlfeddiannaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn derbyn adborth yn rheolaidd oddi wrth awdurdodau lleol drwy gyfrwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phenaethiaid panel technegol iechyd yr amgylchedd Cymru gyfan. Mae hyn yn helpu i lywio polisïau'r dyfodol ar y mater pwysig hwn.